Lwfans Ceisio Gwaith

Help tra byddwch yn chwilio am waith

canolfanbydgwa'th

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau



Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi ceisio sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir o fis Ebrill 2010. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio, neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft, o ganlyniad i newidiadau i'r gyfraith.

Cynnwys

Lwfans Ceisio Gwaith 5
Beth yw Lwfans Ceisio Gwaith? 5
A allaf gael Lwfans Ceisio Gwaith? 5
Beth yw ystyr 'wrthi'n chwilio am waith'? 6
Beth yw'r 'cytundeb ceisio gwaith'? 7
Pryd y bydd yn rhaid i mi ymweld â Chanolfan Gwaith? 7
Pryd y bydd yn rhaid i mi fod yn barod i ddechrau gweithio? 8
Sut y telir fy mudd-dal? 8
Credydau Yswiriant Gwladol.....9
Pethau a all effeithio ar eich hawliad 9
Y rheswm y daeth eich swydd ddiwethaf i ben.....9
Peidio â bodloni'r rheolau wrth gael budd-dal 10
Taliadau caledi Lwfans Ceisio Gwaith 11
Cael eich esgusodi rhag bodloni rheolau Lwfans Ceisio Gwaith.....11
Lwfans Ceisio Gwaith mewn sefyllfaoedd penodol 13
Os ydych chi a'ch partner allan o waith 13
Os ydych yn 16 neu'n 17 oed 15
Os ydych yn derbyn hyfforddiant 16

I ddod o hyd i swydd

www.direct.gov.uk/chwiliadgwaith

Ffôn:
0845 606 7890

Ffôn testun:
0845 604 4022

Dydd Llun i ddydd Gwener 8am i 6pm, dydd Sadwrn 9am i 1pm

I gael gwybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 30.

Os ydych dros 60 oed 18
Os ydych yn gweithio am gyfnod byr neu wedi colli eich swydd am gyfnod 19
Pysgotwyr cyfran 21
Os oeddech yn arfer cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Fudd-dal Analluogrwydd 22
Swyddi eraill a'u heffaith ar eich cais 23
Gwirfoddoli 23
Cynghorwyr awdurdodau lleol 24
Diffoddwyr tân rhan-amser ac aelodau o griw bad achub 24
Gwylwyr y glannau cynorthwyol neu aelodau o'r Lluoedd Wrth Gefn 25
Newidiadau yn eich bywyd 25
Pa newidiadau y mae angen i mi roi gwybod i chi amdanynt? 25
Beth os byddaf yn symud dramor? 26
Beth os byddaf yn mynd i'r ysbyty? 27
Help gyda chostau iechyd 27
I gael rhagor o wybodaeth.....28
Rhestr termau.....29

Lwfans Ceisio Gwaith

Beth yw Lwfans Ceisio Gwaith?

Lwfans Ceisio Gwaith yw'r prif fudd-dal a delir os ydych allan o waith ac yn chwilio am waith.

Mae dau fath o Lwfans Ceisio Gwaith.

- Y math cyntaf yw 'Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau'. Gallwn dalu hwn ar gyfer hyd at 182 diwrnod. Mae'n seiliedig ar faint o Yswiriant Gwladol rydych wedi talu yn ystod y ddwy flwyddyn dreth ddiwethaf . Yn gyffredinol, ni fydd cyfraniadau hunangyflogaeth yn eich helpu i fod yn gymwys ar gyfer Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau.
- Yr ail fath yw 'Lwfans Ceisio Gwaith sy'n seiliedig ar incwm'. Mae'n seiliedig ar eich incwm a'ch cynilion.

Ar hyn o bryd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yw 60 i ferched a 65 i ddynion. Bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer merched yn codi'n raddol rhwng mis Ebrill 2010 a 2020, o 60 oed i 65 oed.

A allaf gael Lwfans Ceisio Gwaith?

I gael Lwfans Ceisio Gwaith mae'n rhaid i chi fodloni'r canlynol:

- gallu gweithio am o leiaf 40 awr yr wythnos
- yn chwilio am waith
- wedi talu digon o Yswiriant Gwladol ar eich incwm
- bod â chynilion sy'n llai na swm penodol
- bod dros 18 oed ac o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth

- cael 'cytundeb ceisio gwaith' (gweler tudalen 7)
- peidio â bod mewn addysg, a
- yn byw ym Mhrydain Fawr. (Os ydych wedi ymgartrefu yma o dramor, mae hynny'n cyfrif fel byw yma. Rhaid i chi beidio â bod 'yn destun rheolaeth fewnfudo' - mewn geiriau eraill, rhaid i chi fod mewn sefyllfa lle nad oes angen caniatâd arnoch i chi ddod i Brydain Fawr. Mae rhai eithriadau i'r rheolau ymfudo.)

Os na fyddwch yn bodloni pob un o'r rhannau hyn, efallai y byddwch yn cael Lwfans Ceisio Gwaith o hyd. Os nad ydych yn siŵr, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith.

Os ydych eisoes yn cael budd-daliadau eraill, mae'n bosibl na fyddwch yn cael Lwfans Ceisio Gwaith.

Os oes gennych bensiwn galwedigaethol neu bensiwn personol efallai y bydd yn effeithio ar faint o Lwfans Ceisio Gwaith a gewch. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith.

Beth yw ystyr 'wrthi'n chwilio am waith'?

Pan fyddwch yn cael Lwfans Ceisio Gwaith efallai y byddwch yn ein clywed yn sôn am 'wrthi'n chwilio am waith'. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi wneud pethau bob wythnos er mwyn dod o hyd i waith neu i wella eich cyfleoedd o gael gwaith. Dylech geisio gwneud o leiaf dri pheth bob wythnos. Gallai hyn gynnwys ysgrifennu CV neu siarad â chyflogwyr.

Gwneud cais

www.direct.gov.uk/lcgar-lein

Ffôn:
0800 012 1888

Ffôn testun:
0800 023 4888

Dydd Llun i ddydd Gwener 8am i 6pm

I gael gwybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 30.

Beth yw'r 'cytundeb ceisio gwaith'?

I gael Lwfans Ceisio Gwaith mae'n rhaid i chi gael cytundeb ceisio gwaith. Bydd eich cytundeb ceisio gwaith yn nodi'r pethau rydych wedi cytuno i'w gwneud i ddod o hyd i waith. Bydd angen i chi gyfarfod ag ymgynghorydd y Ganolfan Byd Gwaith er mwyn dangos eich bod yn gallu dechrau gweithio a'ch bod yn chwilio am swydd, ac i edrych ar y cynnydd yn erbyn eich cytundeb ceisio gwaith.

Pryd y bydd yn rhaid i mi ymweld â Chanolfan Gwaith?

Mae'n rhaid i chi ddod i mewn i'ch Canolfan Gwaith leol pan fyddwn yn gofyn i chi wneud hynny. Oni fyddwch yn gwneud hyn gallech golli eich budd-dal. Bydd yn rhaid i chi ddod i'n gweld o leiaf unwaith bob pythefnos. Pan fyddwch yn dod i mewn bydd yn rhaid i chi lofnodi datganiad sy'n nodi eich bod wedi bod yn chwilio am waith, eich bod yn barod i weithio o hyd ac nad oes dim byd wedi newid a allai effeithio ar eich budd-dal.

Pan fyddwch yn dod i mewn, byddwn yn trafod:

- os ydych yn dal i fodloni'r rheolau ar gyfer Lwfans Ceisio Gwaith o hyd a'r hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud i barhau i'w gael
- os ydych yn gwneud yr hyn y dywedoch y byddech yn ei wneud yn eich cytundeb ceisio gwaith
- a oes unrhyw swyddi y gallwch wneud cais amdanynt, ac
- a oes unrhyw beth arall a allai eich helpu (megis cyrsiau hyfforddi, rhaglenni chwilio am swyddi neu wasanaethau eraill).

Os bydd gennym rywbeth i ddweud wrthych, efallai y byddwn yn eich ffonio i ofyn i chi ddod i mewn i'r Ganolfan Gwaith.

Pryd y bydd yn rhaid i mi fod yn barod i ddechrau gweithio?

Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o bobl fod yn barod i ddechrau gweithio ar unwaith. Ond efallai y bydd angen mwy o amser ar rai pobl. Os ydych:

- yn darparu gwasanaeth, megis gweithredu fel Ynad Heddwch neu'n gwneud gwasanaeth cymunedol, mae'n rhaid i chi fod yn barod i ddechrau gweithio o fewn 24 awr
- yn gwneud gwaith gwirfoddol mae'n rhaid i chi allu gweithio o fewn wythnos, ond mae'n rhaid i chi fod yn barod i fynd i gyfweliad o fewn 48 awr
- yn ofalwr mae'n rhaid i chi allu dechrau gweithio o fewn wythnos, ond mae'n rhaid i chi fod yn barod i fynd i gyfweliad o fewn 48 awr, neu
- yn gweithio'n rhan-amser mae'n rhaid i chi allu dechrau gweithio yn syth ar ôl y cyfnod rhybudd statudol y mae'n rhaid i chi ei roi i'ch cyflogwr i ddod â'ch contract i ben.

Sut y telir fy mudd-dal?

Rydym yn talu budd-daliadau i mewn i'ch cyfrif. Dyma'r ffordd orau o gael eich budd-dal oherwydd gallwch ddewis sut a phryd yr hoffech gymryd arian allan o'ch cyfrif. Gall eich cyfrif fod gyda banc, cymdeithas adeiladu neu Swyddfa'r Post.

Credydau Yswiriant Gwladol

Efallai y byddwch yn cael credydau Yswiriant Gwladol am bob wythnos rydych ar gael ac yn chwilio am waith. Gall fod angen y credydau hyn arnoch fel y gallwch gael budd-daliadau a Phensiwn y Wladwriaeth yn y dyfodol. Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith i gael rhagor o wybodaeth.

Pethau a all effeithio ar eich hawliad

Y rheswm y daeth eich swydd ddiwethaf i ben

Os gwnaethoch adael eich swydd

Os byddwch yn dewis gadael eich swydd, gofynnir i chi am y rheswm pam. Bydd angen i chi ddangos bod gennych 'reswm cyfiawn' dros adael. Efallai y gofynnir i'ch cyflogwr diwethaf roi sylwadau ar unrhyw ddatganiad y byddwch yn ei wneud.

Bydd y Ganolfan Byd Gwaith yn gwneud penderfyniad yn seiliedig ar nifer o ffactorau, sy'n cynnwys p'un a oedd yn rhesymol i chi weithredu fel y gwnaethoch.

Os penderfynir eich bod wedi gadael eich swydd heb reswm cyfiawn, gallech golli eich hawl i gael Lwfans Ceisio Gwaith am hyd at 26 wythnos.

Os cawsoch eich diswyddo

Os cawsoch eich diswyddo, gofynnir i'ch cyflogwr diwethaf am y rhesymau. Byddwch yn gallu rhoi sylwadau ar yr hyn maent yn ei ddweud.

Bydd y Ganolfan Byd Gwaith yn penderfynu p'un a ydych wedi colli eich swydd o ganlyniad i'ch gweithredoedd eich hun. Os penderfynir mai hyn oedd yr achos, gallwch golli eich hawliad i gael Lwfans Ceisio Gwaith am hyd at 26 wythnos.

Os caiff eich Lwfans Ceisio Gwaith ei atal, gallech gael taliad caledi (gweler tudalen 11).

Peidio â bodloni'r rheolau wrth gael budd-dal

Ni allwch gael Lwfans Ceisio Gwaith os byddwch yn torri unrhyw un o'r rheolau budd-daliadau i'w gael. Gallai hyn ddigwydd os na fyddwch:

- yn sicrhau eich bod ar gael i weithio
- yn chwilio am waith a hyfforddiant, neu
- os na fydd gennych gytundeb ceisio gwaith cyfredol.

Os byddwch yn gwrthod gwaith neu hyfforddiant

Byddwn yn atal eich Lwfans Ceisio Gwaith os byddwch yn gwrthod gwaith neu hyfforddiant neu'n gadael heb roi rheswm da. Gallai hyn ddigwydd os:

- byddwch yn gwrthod cynnig i weithio neu i gael hyfforddiant
- na fyddwch yn gwneud cais am unrhyw swyddi
- na fyddwch yn derbyn swydd neu hyfforddiant sydd ar gael
- na fyddwch yn mynd ar hyfforddiant pan fydd lle wedi'i drefnu i chi

- byddwch yn rhoi'r gorau i leoliad hyfforddiant
- byddwch yn gadael swydd heb reswm da, neu
- byddwch yn colli eich lleoliad hyfforddiant neu swydd o ganlyniad i'ch ymddygiad.

Gall ymgynghorydd y Ganolfan Byd Gwaith egluro am ba hyd y gellir atal eich budd-dal.

Taliadau caledi Lwfans Ceisio Gwaith

Os caiff eich Lwfans Ceisio Gwaith ei atal, gallech gael taliad caledi os penderfynir eich bod mewn grŵp sy'n agored i niwed. Gallai hyn fod os oes gennych blant yn eich cartref neu os oes gennych broblem iechyd.

Os nad yw hyn yn gymwys i chi, bydd yn rhaid i chi aros pythefnos cyn i chi gael taliad caledi.

Cael eich esgusodi rhag bodloni rheolau Lwfans Ceisio Gwaith

Efallai y bydd adegau pan na fyddwch yn gallu bodloni pob rheol ar gyfer cael Lwfans Ceisio Gwaith. Dylech siarad â ni os bydd hyn yn digwydd i chi - mewn rhai achosion gallwn eich esgusodi rhag bodloni'r rheolau fel y gallwch gael eich Lwfans Ceisio Gwaith o hyd. Gallai hyn fod os ydych yn sâl neu os oes gennych argyfwng i ymdopi ag ef.

Gallwch wneud cais i gael eich esgusodi ar unrhyw adeg yn ystod eich cais. Dylech drafod hyn gyda'ch ymgynghorydd.

Pa reolau Lwfans Ceisio Gwaith y gallaf gael fy esgusodi rhag eu bodloni?

Gallech gael eich esgusodi rhag bodloni'r rheolau Lwfans Ceisio Gwaith canlynol:

- gallu gweithio o leiaf 40 awr yr wythnos
- chwilio am waith
- cael cytundeb ceisio gwaith
- byw ym Mhrydain Fawr, neu
- os nad ydych mewn addysg llawn amser, ar rai achlysuron.

Sut y gallaf wneud cais i gael fy esgusodi rhag bodloni rheolau Lwfans Ceisio Gwaith?

Os nad ydych yn credu y gallwch fodloni pob rheol i gael Lwfans Ceisio Gwaith, efallai y bydd yn rhaid i chi lenwi ffurflen. Rhowch wybod i'ch ymgynghorydd os na allwch fodloni pob rheol neu os bydd eich amgylchiadau yn newid. Byddwn yn rhoi gwybod i chi os bydd angen unrhyw brawf arnom. Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni cyn gynted â phosibl oherwydd gallai effeithio ar eich budd-dal.

Am ba mor hir y gallaf gael fy esgusodi rhag y rheolau?

Bydd y Ganolfan Byd Gwaith yn rhoi gwybod i chi pan fydd hyn yn dechrau. Bydd pa mor hir y byddwch yn cael eich esgusodi yn dibynnu ar eich amgylchiadau. Er enghraifft, efallai y gellir esgusodi myfyrwyr hyd nes bydd eu cyrsiau'n dod i ben.

Byddwn yn parhau i edrych p'un a allwch barhau i gael eich esgusodi rhag bodloni'r rheolau. Efallai y byddwn yn ysgrifennu atoch neu'n gofyn i chi alw i mewn i'n gweld.

A byddaf yn cael credydau Yswiriant Gwladol tra byddaf yn cael fy esgusodi rhag bodloni'r rheolau?

Yn dibynnu pam rydych yn cael eich esgusodi rhag bodloni'r rheolau, gallech gael credydau Yswiriant Gwladol cyn belled y bydd hyn yn parhau.

Os ydych yn rhan o gais ar y cyd, gallech gael eich credydau Yswiriant Gwladol drwy fudd-dal arall fel Lwfans Gofalwr. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith.

Lwfans Ceisio Gwaith mewn sefyllfaoedd penodol

Os ydych chi a'ch partner allan o waith

Os ydych chi a'ch partner allan o waith, efallai y bydd angen i chi wneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith fel rhan o gwpl. Gelwir hyn yn gais ar y cyd. Mae ceisiadau ar y cyd yn sicrhau y bydd y ddau ohonoch yn cael help a chefnogaeth i ddod o hyd i swydd. Eich cyfrifoldeb chi'ch dau fydd manteisio i'r eithaf ar yr help sydd ar gael i ddod o hyd i waith.

Dylech ddweud wrthym os bydd amgylchiadau'r naill neu'r llall ohonoch yn newid a byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw effaith y gallai hyn ei gael ar eich cais ar y cyd.

Partner

Byddwn yn eich trin fel cwpl os ydych yn byw gyda'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, neu os ydych yn byw gyda rhywun fel pe baent yn ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi. Rydym yn galw'r person arall hwn yn bartner i chi.

A ddylem wneud cais ar y cyd?

Mewn cais ar y cyd rhaid i'r ddau ohonoch fodloni pob rheol ar gyfer cael Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm. Mae hyn yn gymwys os:

- ydych yn rhan o gwpl sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith
- yw o leiaf un ohonoch yn 18 oed neu'n hŷn
- yw'r ddau ohonoch o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth
- nad oes gan yr un ohonoch blant dibynnol.

Pan fydd un ohonoch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ni allwch wneud cais ar y cyd mwyach.

Ar hyn o bryd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yw 60 i ferched a 65 i ddynion. Bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer merched yn codi'n raddol rhwng mis Ebrill 2010 a 2020 o 60 oed i 65 oed.

A oes angen i'r ddau ohonom ymweld â Chanolfan Gwaith?

Os ydych yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith fel cwpl, mae'n rhaid i'r ddau ohonoch ddod i mewn i lofnodi'r datganiad - oni fydd un ohonoch neu'r ddau ohonoch wedi cael eich esgusodi rhag dod i mewn neu os byddwch ar gwrs hyfforddiant. Pan fo'n bosibl, rhoddir yr un amser, lleoliad a diwrnod i'r ddau ohonoch ddod i mewn. Gallai peidio â dod effeithio ar eich budd-dal.

Beth os na allwn fodloni'r rheolau ar gyfer Lwfans Ceisio Gwaith?

Gwyddom na all pawb fodloni pob rheol ar gyfer cael Lwfans Ceisio Gwaith bob amser. Mewn rhai achosion arbennig gallwn eich 'esgusodi', sy'n golygu nad oes rhaid i chi na'ch partner fodloni pob rheol yn ystod eich cais ar y cyd. Ond ni allwn esgusodi'r ddau ohonoch ar yr un pryd.

Gallwch wneud cais i gael eich esgusodi ar unrhyw adeg yn ystod eich cais. Dylech drafod hyn gyda'ch ymgynghorydd.

Os ydych yn 16 neu'n 17 oed

Ni allwch gael Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm os ydych o dan 18 oed fel arfer. Ond os ydych yn 16 neu'n 17 oed gallech gael Lwfans Ceisio Gwaith am gyfnod byr os:

- ydych wedi cael eich gorfodi i fyw oddi wrth eich rhieni
- oes gennych bartner a phlant dibynnol, neu
- bydd byw heb Lwfans Ceisio Gwaith yn anodd iawn i chi.

Bydd yn rhaid i chi fodloni amodau eraill hefyd. Mae'n rhaid eich bod:

- yn byw ym Mhrydain Fawr
- yn gallu gweithio
- allan o waith neu'n gweithio llai nag 16 awr yr wythnos
- yn barod i weithio - am fwy na 40 awr yr wythnos fel arfer
- wedi cofrestru gyda Connexions neu'r Gwasanaeth Gyrfaoedd
- yn chwilio am waith neu hyfforddiant
- peidio â bod mewn addysg berthnasol (mae hyn yn cynnwys addysg hyd at Safon Uwch yn gyffredinol)
- peidio â chael Cymhorthdal Incwm

- peidio â chael incwm neu gynilion dros lefel benodol, a
- peidio â bod o dan reolaeth mewnfudo (hynny yw, mae gennych ganiatâd cyfreithiol i fod yn y wlad hon).

Os nad ydych yn siŵr a yw hyn yn gymwys i chi, dylech gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith.

Ar eich pen-blwydd yn 18 oed, bydd angen i chi ddilyn y rheolau i oedolion ar gyfer Lwfans Ceisio Gwaith.

Beth os ydw i'n 16 neu'n 17 oed, ac yn byw yng Nghymru?

Gallech gael budd-dal o'r enw Lwfans Pontio Pobl Ifanc os ydych yn byw yng Nghymru, ac roeddech yn gweithio neu'n dilyn rhaglen hyfforddi cyn i chi fod allan o waith.

Byddwn yn ystyried a allwch gael Lwfans Pontio Pobl Ifanc cyn y byddwn yn ystyried a allwch gael Lwfans Ceisio Gwaith.

Os ydych yn derbyn hyfforddiant

Beth os wyf mewn addysg neu hyfforddiant rhan amser?

Os ydych mewn addysg neu hyfforddiant rhan amser, (neu ar fin dechrau cwrs), efallai y cewch Lwfans Ceisio Gwaith. Er mwyn gwneud hyn mae'n rhaid i chi fod:

- yn barod i weithio, ac
- yn chwilio am waith.

Efallai y cewch Lwfans Ceisio Gwaith os ydych wedi bod allan o waith am dri mis neu fwy cyn i chi ddechrau cwrs newydd.

Er mwyn gwneud hyn mae'n rhaid i chi:

- allu gwneud eich cwrs ar adegau gwahanol os yw hynny'n angenrheidiol er mwyn i chi gymryd swydd, neu
- bod yn barod i roi'r gorau i'r cwrs os cewch gynnig swydd.

Os ydych wedi bod allan o waith am lai na thri mis, efallai y gallech ddilyn cwrs rhan-amser o hyd. Gofynnwch i ymgynghorydd am ragor o wybodaeth.

Beth os wyf mewn addysg llawn amser?

Ni allwch gael Lwfans Ceisio Gwaith os ydych o dan 20 oed a'ch bod yn yr ysgol neu'r coleg. Efallai y gallwch gael Cymhorthdal Incwm - cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith i gael rhagor o wybodaeth.

Ni all y rhan fwyaf o fyfyrwyr llawn amser mewn coleg neu brifysgol gael Lwfans Ceisio Gwaith chwaith. Gall rhai myfyrwyr sydd â chyfrifoldeb am blant hawlio Lwfans Ceisio Gwaith yn ystod gwyliau'r haf. Mae hyn yn cynnwys pobl sengl a chyplau sy'n fyfyrwyr llawn amser.

Beth os wyf yn dilyn un o gyrsiau'r Brifysgol Agored?

Gallwch barhau i gael Lwfans Ceisio Gwaith os byddwch yn astudio gyda'r Brifysgol Agored. Ni ddylai'r gwaith cwrs a wnewch ar gyfer y Brifysgol Agored effeithio ar p'un a ydych yn gallu gweithio ai peidio gan ei fod wedi'i gynllunio ar gyfer pobl sy'n astudio'n rhan amser.

Gallwch fynd ar wythnos breswyl ar gyfer bob cwrs gyda'r Brifysgol Agored cyhyd â bod hyn yn rhan bwysig o'r rhaglen. Byddwn yn parhau i'ch dosbarthu fel rhywun sy'n barod i weithio ac yn chwilio am waith. Mae'n rhaid i chi roi gwybod i'ch ymgynghorydd os byddwch yn dilyn y math hwn o gwrs.

Beth os wyf am ddilyn cwrs byr?

Cewch fynd ar gwrs byr heb iddo effeithio ar eich Lwfans Ceisio Gwaith. Er enghraifft, gallech fynd ar gwrs i'ch helpu i gael swydd neu i wella eich sgiliau. Gallech wneud y math hwn o gwrs am hyd at bythefnos y flwyddyn.

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i'ch ymgynghorydd cyn i chi fynd ar gwrs er mwyn sicrhau y gallwch hawlio Lwfans Ceisio Gwaith o hyd.

Ar hyn o bryd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yw 60 i ferched a 65 i ddynion. Bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer merched yn codi'n raddol rhwng mis Ebrill 2010 a 2020 o 60 oed i 65 oed.

Os ydych dros 60 oed

Ni allwch gael Lwfans Ceisio Gwaith pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Os ydych yn ferch sydd wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, efallai y cewch Gredyd Pensiwn a Phensiwn y Wladwriaeth. Efallai y byddwch am oedi cyn cael eich Pensiwn y Wladwriaeth nes ei fod yn addas i chi (gelwir hyn yn 'oedi Pensiwn y Wladwriaeth'). Mae hyn yn golygu y gallech gael mwy o arian pan fyddwch yn gwneud cais.

Os ydych yn ddyn dros 60 oed, efallai y cewch naill ai Lwfans Ceisio Gwaith neu Gredyd Pensiwn, neu'r ddau - mae'n dibynnu ar eich oedran a pha fath o Lwfans Ceisio Gwaith a gewch (gweler tudalen 5).

Mae'r oedran y gallwch gael Credyd Pensiwn yn codi o 60 oed i 65 oed erbyn 2020. Mae'n gysylltiedig â'r newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ferched. Er mwyn gweld pryd y bydd hyn yn berthnasol i chi, defnyddiwch ein cyfrifiannell i chwilio am oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer merched a anwyd ar yr un dyddiad â chi. Ewch i www.direct.gov.uk/cyfrifiannellpensiwn

Os byddwch yn dewis parhau i gael Lwfans Ceisio Gwaith yn hytrach na Chredyd Pensiwn ar ôl hyn, bydd angen i chi barhau i fodloni'r rheolau ar gyfer cael Lwfans Ceisio Gwaith (gweler tudalen 5).

I gael rhagor o wybodaeth am Gredyd Pensiwn, Pensiwn y Wladwriaeth ac oedi, cysylltwch â'r Gwasanaeth Pensiwn.

Y Gwasanaeth Pensiwn

www.direct.gov.uk/pensiynau

Ffôn:
0845 606 0275

Ffôn testun:
0845 606 0295

Os ydych yn gweithio am gyfnod byr neu wedi colli eich swydd am gyfnod

Beth yw 'gweithio am gyfnod byr'?

Gallech gael Lwfans Ceisio Gwaith os ydych yn gweithio am gyfnod byr neu os byddwch wedi colli eich swydd am gyfnod. Gallai hyn ddigwydd:

- os caiff eich oriau gwaith eu cwtogi am nad oes digon o waith i chi, neu
- os nad oes gan eich cyflogwr waith i chi ar ddiwrnod (neu ddiwrnodau) penodol.

Gallech gael Lwfans Ceisio Gwaith hyd nes y byddwch yn gweithio'n llawn amser eto, os:

- ydych o dan gontract â'ch cyflogwr o hyd, ac
- os ydych yn bwriadu mynd yn ôl i weithio'n llawn amser i'r un cyflogwr.

I gael gwybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 30.

Beth yw'r rheolau os wyf yn gweithio am gyfnod byr?

Y brif reol yw bod yn rhaid i chi allu gweithio a'ch bod wrthi'n chwilio am waith. Am y 13 wythnos gyntaf o'ch gwaith cyfnod byr, byddwn yn eich ystyried fel rhywun sy'n gallu gweithio os ydych:

- yn gweithio llai nag 16 awr yr wythnos
- yn ennill llai na'r isafswm y mae'r Llywodraeth yn dweud sydd ei angen arnoch i fyw
- yn barod i ddechrau eich swydd arferol ar unwaith, ac
- yn barod i ddechrau gwaith achlysurol ar unwaith fel eich bod yn gweithio hyd at gyfanswm o 40 awr yr wythnos o leiaf.

Byddwn hefyd yn eich ystyried fel rhywun sy'n gallu gweithio yn ystod yr 13 wythnos gyntaf pan fyddwch wedi colli eich swydd os ydych yn barod i:

- ddechrau eich swydd arferol ar unwaith, a
- gwneud gwaith achlysurol ar unwaith.

Ar ôl 13 wythnos bydd yn rhaid i chi fodloni'r rheolau arferol ar gyfer cael Lwfans Ceisio Gwaith.

Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym os ydych yn ennill unrhyw arian. Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym hefyd os byddwch yn colli eich swydd. Gofynnwch i ymgynghorydd am ragor o wybodaeth - gallwn esbonio am dreth, tâl gwyliau a thaliadau gwarantedig.

Pysgotwr cyfran

Pysgotwr cyfran yw rhywun y mae cyfanswm ei gyflog, neu ran o'i gyflog, yn gyfran o enillion neu elw cwch bysgota.

Os ydych yn bysgotwr cyfran, mae gwahanol reolau Lwfans Ceisio Gwaith gan eich bod yn talu cyfradd uwch o Yswiriant Gwladol (Dosbarth 2) hunangyflogedig i'ch helpu i fod yn gymwys i gael Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau.

Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau

Os ydych yn bysgotwr cyfran sy'n cael Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau, mae rheolau arbennig ar gyfer eich math chi o waith ac enillion.

Nid yw'r rheol arferol na ddylech weithio 16 awr neu fwy yr wythnos yn gymwys i oriau lle rydych yn gweithio fel pysgotwr cyfran. Mae hyn oherwydd eich patrymau gwaith gwahanol - gall un daith bysgota bara mwy nag 16 awr.

Gallwch ennill £20 yr wythnos heb iddo effeithio ar eich budd-dal. Os oes gennych enillion o waith arall hefyd, gallai hyn effeithio ar eich budd-dal.

Byddwn yn newid eich budd-dal bob wythnos ar sail unrhyw enillion y gallech eu cael yn yr wythnos honno (mae hyn yn wahanol i'r wythnos rydych yn cael eich enillion).

Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm

Nid yw'r rheolau i bysgotwyr cyfran yn gymwys i Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm. Os ydych yn hunangyflogedig, byddwn yn defnyddio cyfartaledd o'ch oriau gwaith pan fyddwn yn cyfrifo eich budd-dal. Os ydych yn gweithio 16 awr neu fwy ar gyfartaledd, neu os yw'ch partner yn gweithio 24 awr neu fwy yr wythnos, ni allwch gael Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm.

Sut i wneud cais

www.direct.gov.uk/lcgar-lein

Ffôn:
0800 012 1888

Ffôn testun:
0800 023 4888

Dydd Llun i ddydd Gwener 8am i 6pm

Os oeddech yn arfer cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Fudd-dal Analluogrwydd

Os oeddech yn cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Fudd-dal Analluogrwydd, a'i fod wedi'i atal gan eich bod yn gallu gweithio, efallai y cewch Lwfans Ceisio Gwaith hyd nes y dewch o hyd i swydd.

Os ydych allan o waith neu'n gweithio llai nag 16 awr yr wythnos, dylech wneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith ar unwaith. Gallai unrhyw oedi olygu y byddwch yn colli arian. Pan fyddwch yn gwneud cais, rhowch wybod i ni eich bod yn cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Fudd-dal Analluogrwydd.

I gael gwybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 30.

Swyddi eraill a'u heffaith ar eich cais

Gwirfoddoli

C: Beth fydd yn digwydd os wyf am ddilyn cwrs hyfforddiant neu gael swydd breswyl fel gwirfoddolwr?

A: Siaradwch â'r Ganolfan Byd Gwaith cyn i chi ddechrau. Gallai effeithio ar eich Lwfans Ceisio Gwaith.

C: A allaf wneud gwaith gwirfoddol dramor?

A: Ddim fel arfer. Os byddwch yn gadael y DU fel gwirfoddolwr, caiff eich Lwfans Ceisio Gwaith ei atal.

C: A oes unrhyw adegau pan allaf wirfoddoli dramor?

A: Dim ond rhai gwirfoddolwyr fydd yn gallu cael Lwfans Ceisio Gwaith am hyd at 4 wythnos dramor. Mae'n rhaid i chi siarad â'r Ganolfan Byd Gwaith i gael rhagor o wybodaeth.

C: A allaf gael Lwfans Ceisio Gwaith os wyf yn gwirfoddoli'n llawn amser?

A: Gallwch, cyn belled â'ch bod ar gael i weithio o hyd ac wrthi'n chwilio am waith. Os ydych yn gwirfoddoli ac am gael lwfans cynhaliaeth llawn amser, efallai y bydd yn rhaid i chi roi'r gorau i hawlio Lwfans Ceisio Gwaith. Dylech bob amser siarad â'r Ganolfan Byd Gwaith cyn i chi ddechrau gwirfoddoli.

Cynghorwyr Awdurdodau Lleol

C: A allaf barhau i gael Lwfans Ceisio Gwaith os wyf yn Gynghorydd Awdurdod Lleol?

A: Gallwch, os ydych ar gael i weithio, ac wrthi'n chwilio am waith. Nid yw'r amser rydych yn ei dreulio yn ymgymryd â'ch dyletswyddau yn cyfrif fel gwaith â thâl.

C: Beth os byddaf yn cael lwfans sylfaenol?

A: Caiff y lwfans sylfaenol ei gyfrif fel enillion. Mae pob cynghorydd yn cael y lwfans hwn ar gyfer yr amser maent yn ei dreulio ar eu dyletswyddau. Efallai y caiff rhai taliadau, fel costau teithio, eu hanwybyddu. Mae'n rhaid i chi siarad â'r Ganolfan Byd Gwaith am sut y mae'n effeithio ar eich Lwfans Ceisio Gwaith.

Diffoddwyr tân rhan-amser ac aelodau o griw bad achub

C: Rwy'n ddiffoddwr tân rhan-amser neu'n aelod o griw bad achub. A fydd y dyletswyddau hyn yn effeithio ar fy nghais am Lwfans Ceisio Gwaith?

A: Byddwn yn parhau i'ch trin fel rhywun sydd ar gael i weithio ac sydd wrthi'n chwilio am waith. Os na allwch wneud cais i fynd ar gwrs hyfforddiant neu ar raglen waith y mae'n rhaid i chi ei dilyn, neu dderbyn lle ar gwrs neu raglen o'r fath, oherwydd eich dyletswyddau, ni fyddwn yn newid eich Lwfans Ceisio Gwaith.

C: Os byddaf yn cael 'taliad bounty' a fydd yn effeithio ar fy mudd-daliadau?

A: Efallai. Os cewch 'daliad bounty', rhaid i chi roi gwybod i'r Ganolfan Byd Gwaith.

Gwylwyr y glannau cynorthwyol neu aelodau o'r Lluoedd Wrth Gefn

C: Rwy'n wyliwr y glannau cynorthwyol neu'n aelod o'r Lluoedd Wrth Gefn. A allaf gael Lwfans Ceisio Gwaith?

A: Gallwch, os ydych ar gael i weithio ac wrthi'n chwilio am waith. Ni chaiff yr amser rydych yn ei dreulio ar eich dyletswyddau ei ystyried fel gwaith â thâl.

Newidiadau yn eich bywyd

Pa newidiadau y mae angen i mi roi gwybod i chi amdanynt?

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r Ganolfan Byd Gwaith os bydd unrhyw beth yn newid. Gallai hyn fod os ydych:

- yn dechrau unrhyw fath o waith neu hyfforddiant neu gwrs
- yn dechrau hawlio budd-dal arall
- yn cael pensiwn neu fod eich pensiwn yn newid
- yn cael mwy neu lai o gynilion
- yn dechrau byw gyda rhywun
- daw rhywun i fyw i'ch tŷ neu bydd rhywun a oedd yn byw yn eich tŷ yn gadael
- yn priodi neu'n ffurfio partneriaeth sifil
- yn ysgaru, yn dod â phartneriaeth sifil i ben, neu'n gwahanu
- yn symud tŷ

- yn symud o'ch cartref, hyd yn oed am ddiwrnod
- yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith i rywun sy'n cael swydd neu'n mynd i mewn i ysbyty neu gartref nyrsio
- oes gennych blant a'u bod yn gadael yr ysgol
- yn mynd yn sâl
- yn gorfod gofalu am rywun, neu
- ni allwch gymryd swydd am unrhyw reswm.

Gofynnwch i ymgynghorydd os nad ydych yn siŵr p'un a fydd eich newid yn effeithio ar eich budd-dal. Os ydych yn rhan o gais ar y cyd, bydd yn rhaid i un ohonoch roi gwybod i ni os bydd unrhyw newidiadau yn digwydd i chi neu'ch partner.

Beth os byddaf yn symud dramor?

Os ydych yn cael Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau yn y DU ac yna'n symud dramor i chwilio am waith, lle mae rheoliadau'r Gymuned Ewropeaidd yn gymwys (gweler tudalen 29), gallwch barhau i gael budd-dal am hyd at dri mis.

Mae'n rhaid i chi roi digon o rybudd i'r Ganolfan Byd Gwaith cyn i chi fynd er mwyn i ni allu rhoi'r ffurflenni cywir i chi eu llenwi a throsglwyddo'r manylion.

Rhaid i chi gofrestru fel ceisiwr gwaith o fewn saith diwrnod i adael y DU, a dilyn rheolau'r wlad honno ynglŷn â bod ar gael i weithio.

Beth os byddaf yn mynd i'r ysbyty?

Os byddwch yn mynd i'r ysbyty, efallai y cewch Lwfans Ceisio Gwaith am hyd at bythefnos. Gofynnwch i ni am gyngor. Ar ôl y cyfnod hwnnw, rhaid i chi hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth gan na fyddwch yn bodloni rheolau Lwfans Ceisio Gwaith.

Help gyda chostau iechyd

Gallech gael help gyda rhai costau iechyd gan gynnwys presgripsiynau'r GIG, triniaeth ddeintyddol y GIG a rhai costau teithio os ydych ar incwm isel neu'n cael:

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn gysylltiedig ag incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Cymhorthdal Incwm, neu
- Credyd Pensiwn.

I gael gwybod mwy am help gyda chostau iechyd gan y GIG, ewch i'r wefan ar gyfer yr ardal lle rydych yn byw:

- Cymru
  www.nhsdirect.wales.nhs.uk/small/cy/hafan/gwybodaethiechyd
- Lloegr
  www.dh.gov.uk/helpwithhealthcosts
- Yr Alban
  www.scotland.gov.uk/publications

I gael rhagor o wybodaeth

I hawlio Lwfans Ceisio Gwaith

www.direct.gov.uk/lcgar-lein

Ffôn: 0800 012 1888

Ffôn testun: 0800 023 4888

Dydd Llun i ddydd Gwener 8am i 6pm

Yn ystod yr alwad byddwn yn gofyn i chi ddarparu gwybodaeth gan gynnwys:

- eich rhif Yswiriant Gwladol
- manylion eich cyfrif banc
- manylion eich rhent neu forgais
- manylion eich cyflogwr yn y gorffennol neu eich cyflogwr presennol, a
- manylion unrhyw incwm arall a chynilion.

I ddod o hyd i swydd

Os ydych yn chwilio am waith, gallwch chwilio drwy ein rhestr o swyddi ar-lein yn www.direct.gov.uk/chwiliadgwaith

Neu ffoniwch y Ganolfan Byd Gwaith ar 0845 606 7890 (ffôn testun 0845 604 4022) i gael gweld pa swyddi sydd ar gael.

Dydd Llun i ddydd Gwener 8am i 6pm, dydd Sadwrn 9am i 1pm.

I gael gwybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 30.

Rhestr termau

Cyfraddau budd-daliadau

Caiff cyfraddau budd-daliadau eu hadolygu ym mis Ebrill bob blwyddyn. I gael gwybod beth yw cyfraddau eleni, ewch i www.direct.gov.uk/budd-daliadau

Prydain Fawr

Cymru, Lloegr a'r Alban.

Y Deyrnas Unedig (DU)

Ystyr y DU yw Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ond nid Ynysoedd y Sianel nac Ynys Manaw.

Gwledydd lle mae rheoliadau'r Gymuned Ewropeaidd yn berthnasol

Gwledydd yr Undeb Ewropeaidd: Awstria, Gwlad Belg, Bwlgaria, Cyprus, Gweriniaeth Siec, Denmarc, Estonia, y Ffindir, Ffrainc, yr Almaen, Groeg, Hwngari, Iwerddon, yr Eidal, Latfia, Lithwania, Lwcsembwrg, Malta, Yr Iseldiroedd, Gwlad Pwyl, Portiwgal, Romania, Slofacia, Slofenia, Sbaen (gan gynnwys Ynysoedd Baleares a Dedwydd), Sweden a'r DU (gan gynnwys Gibraltar ond nid Ynys Manaw nag Ynysoedd y Sianel).

Mae rheolau gofal iechyd a nawdd cymdeithasol y Gymuned Ewropeaidd hefyd yn berthnasol i Wlad yr Iâ, Liechtenstein, Norwy a'r Swistir.

Costau galwadau

Roedd y costau yn gywir ar y dyddiad sydd ar gefn y daflen hon.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau daear BT ond efallai y bydd yn rhaid i chi dalu os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Ni ddylai cost galwadau i rifau 0845 o linellau daear BT fod yn fwy na 4c y funud gyda thâl o 9c ar gyfer gwneud yr alwad. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Gall galwadau o ffonau symudol gostio hyd at 40c y funud, felly gofynnwch i'ch darparwr gwasanaeth am gost galwadau.

Ffonau Testun

Mae ein rhifau ffôn tesun ar gyfer pobl sy'n ei chael hi'n anodd siarad neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, efallai y bydd gan ambell lyfrgell neu ganolfan cyngor ar bopeth un. Nid yw ffonau testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

Mae Directgov yn rhoi gwybodaeth gan adrannau llywodraeth y DU am bob math o bynciau. I gael gwybod mwy am ba fudd-daliadau y gallech fod yn gymwys i'w cael, ewch i

www.direct.gov.uk/cynghoryddbudd-daliadau

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn ymroddedig i weithredu egwyddorion cyfle cyfartal yn ei rhaglenni a'i gwasanaethau.

Cynhyrchwyd gan y Ganolfan Byd Gwaith,
rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

ISBN 978-1-84763-027-8
DWP1002W | f2.0 (Ebrill 2010) lv2.0 (April 2010)